# CYFARFOD PENDERFYNIADAU AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL DROS ADDYSG A PHLANT

**DYDD** Llun, 1 Ebrill 2019

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd:** G. Davies (Aelod o’r Bwrdd Gweithredol).

**Roedd y swyddogion canlynol yn bresennol:**
K. Thomas, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

Swyddfa YBG dros Addysg & Phlant - 9.00 - 9.05 yb

## 1. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol.

## 2. PENODI LLYWODRAETHWYR A.LL.

Bu'r Aelod o'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried y ceisiadau oedd wedi dod i law am y swyddi Llywodraethwyr Awdurdod Lleol yn y sir. Nodwyd bod gwahoddiad i gyflwyno enwebiadau wedi'i roi i'r Cadeirydd, i'r Pennaeth ac i'r Aelod(au) Lleol yn achos Ysgolion Cynradd/yr aelod(au) a oedd yn llywodraethwyr yn achos Ysgolion Uwchradd.

Hefyd dywedwyd bod Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol yn cael eu penodi am 4 blynedd ac, os yw'r swydd yn wag oherwydd bod cyfnod yr unigolyn yn y swydd yn dod i ben, bod nodyn ynghylch hynny yn cael ei gynnwys y manylion am yr unigolyn os oedd am gael ei ailbenodi.

**PENDERFYNWYD, ar ôl ystyried y ceisiadau a ddaethai i law, benodi'r canlynol yn Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol er mwyn cyflawni'r rhwymedigaethau statudol i lenwi lleoedd gwag ar Gyrff Llywodraethu:-**

| Ysgol Gynradd | Penodiadau |
|---|---|
| Bryn Teg<br>(1 lle gwag – 2 enwebiad) | Ms M Hill |
| Dafen<br>(1 lle gwag – 1 enwebiad) | Mr G. Edwards |

**AELOD O’R BWRDD GWEITHREDOL** **DYDDIAD**

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council
EICH CYNGOR arleinamdani
www.sirgar.llyw.cymru
YOUR COUNCIL doitonline
www.carmarthenshire.gov.wales